TAI YN GYNTAF CYMRU

CYNHADLEDD 2024

22 MAI 2024 | AR-LEIN

cymorth cymru
connect • strengthen • influence



RHAGLEN

09:30 ⬇ 10:30

LANSIAD: EGWYDDORION DIWYGIEDIG TAI YN GYNTAF CYMRU

- **Alex Osmond, Cymorth Cymru**

Cydnabyddir yn eang fod egwyddorion Tai yn Gyntaf yn allweddol i lwyddiant y model. Fodd bynnag, wrth i'r polisi ac amgylchedd eu cyflenwi newid, sut allwn ni sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r pwrpas? Wedi eu datblygu drwy gyfrwng Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru, gyda mewnbwn gan bobl a chanddynt brofiad byw ohonynt, rydym wedi diwygio a diweddaru'r egwyddorion ar gyfer Cymru. Bydd y sesiwn hon yn amlinellu'r newidiadau allweddol, ac yn dangos sut y bydd yr egwyddorion diwygiedig yn cryfhau'r ymarfer ymhellach.

11:00 ⬇ 12:00

YMSEFYDLU SEICOLEG GLINIGOL YN TAI YN GYNTAF

- **Bianca Hutchinson, Crisis**

Mae cymorth aml-asiantaeth yn elfen allweddol o Tai yn Gyntaf, gyda chymorth iechyd meddwl yn ffactor bwysig yn nhaith llawer o bobl allan o ddigartrefedd. Mae gwasanaethau'n parhau i wneud popeth posibl i alluogi mynediad at wasanaethau seicolegol, gyda rhai'n dibynnu ar bartneriaethau gyda gwasanaethau eraill, ac eraill yn creu rolau o fewn eu timau. Pleser o'r mwyaf yw croesawu Bianca Hutchinson i ymuno â ni – bydd hi'n rhannu'r buddion a geir o ymsefydlu seicolegydd clinigol o fewn tîm Tai yn Gyntaf, ac effaith hynny ar gleientiaid a staff fel ei gilydd.

12:30 ⬇ 13:30

TAI YN GYNTAF – CYMORTH AR DDIWEDD OES

- **Alex Smith, Homeless Link**
- **Cath Docherty, Byddin yr Iachawdwriaeth**

Gwyddom fod digartrefedd tymor-hir yn gallu arwain at anghydbwysedd mawr o ran iechyd, ac at ddisgwyliad oes byrrach. Yn anffodus, marwolaeth yw un o'r rhesymau mwyaf cyffredin am ddod â thenantiaeth Tai yn Gyntaf i ben. Yn y sesiwn yma byddwn yn ffocysu ar sut y gall staff ymdopi â'r sefyllfa drist hon, yr agweddau ymarferol, sut i ddechrau trafod gofal diwedd oes gyda chleient, a sut y gall tîm gefnogi ei gilydd drwy'r profiad hwn.

14:00 ⬇ 15:00

MWY NA DIM OND TO: ARCHWILIO CANLYNIADAU HOLISTAIDD TAI YN GYNTAF

- **Sophie Boobis of Homeless Link**

Yn ein sesiwn olaf am y dydd, bydd Sophie Boobis yn cyflwyno ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Homeless Link ac Expert Link, yn archwilio sut mae ymgysylltiad blwyddyn ar ôl blwyddyn â Tai yn Gyntaf yn cyflenwi ystod o welliannau i ansawdd bywyd pobl, e.e. meysydd iechyd corfforol a meddyliol, ymddygiad troseddol, defnyddio sylweddau, rhwydweithiau cymdeithasol, cyflogaeth a hyfforddiant, ymgysylltiad â gweithgareddau ystyrlon, a mwy.